**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:**

**CRAFFU AR GYLLIDEB ATODOL GYNTAF LLYWODRAETH CYMRU 2021-22**

**AWST 2021**

---

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion mewn cyllidebau atodol yn y dyfodol ar sut mae dyraniadau newydd wedi'u blaenoriaethu.**

**Ymateb: Derbyn**

Gwneir dyraniadau ar ôl ymgynghori ar draws y Llywodraeth ac fe'u blaenoriaethir i ymateb i'r angen i ddiogelu ein dinasyddion a rhoi cymorth i'n gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a chymunedau, gan adlewyrchu ein blaenoriaethau allweddol ac ystyried egwyddorion ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae llawer o'r dyraniadau mewn cyllidebau atodol yn cadarnhau cyhoeddiadau cyllidebol a wneir gan y Gweinidogion ac felly mae gwybodaeth am y penderfyniadau cyllidebol hyn ar gael yn gyhoeddus.

Rydym yn parhau i adolygu ein dogfennau cyllidebol yn rheolaidd ac wrth asesu'r wybodaeth i gefnogi cyllidebau atodol rydym yn parhau i geisio sicrhau'r cydbwysedd cywir i gynnal cymesuredd a rhoi eglurhad pellach o ddyraniadau sylweddol sy'n cael eu cynnig ynddynt.

Wrth ystyried dyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn, rwy'n gweithio gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet i nodi pwysau, a thrwy weithio gyda thîm o swyddogion a chynghorwyr arbennig rwy'n gallu edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd ar draws y Llywodraeth a gwneud penderfyniadau ar sail hynny. Rwy'n ystyried ffactorau megis fforddiadwyedd cyffredinol, gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, a chyfleoedd ar gyfer ymyriadau cydweithredol a chydgysylltiedig i osgoi dyblygu cymaint â phosibl.

Rwyf wedi pwysleisio pwysigrwydd trefniadau monitro cadarn drwy gydol y flwyddyn i sicrhau ein bod yn deall y gofynion diweddaraf, yn enwedig o ran ymyriadau ar sail galw, fel y gallwn reoli ein cynlluniau ariannol yn effeithiol ac fel y bydd adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithlon.

Mae’r dull gweithredu hwn yn helpu i sicrhau bod unrhyw ddyraniadau pellach yn rhoi’r cydbwysedd cywir o ran cymorth ac yn ymateb i’r anghenion ar draws bywyd Cymru. Bydd yr holl ddyraniadau pellach a gyhoeddir yn dilyn yr ymarfer hwn yn cael eu cadarnhau yn yr ail gyllideb atodol yn ddiweddarach eleni.

---

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i wella tryloywder wrth gyfrifo cyllid, ac ar gyfer mecanweithiau rhyng-lywodraethol a strwythurau llywodraethu mwy effeithiol na'r rheini sydd ar waith ar hyn o bryd, ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ganlyniad y trafodaethau hyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i wella tryloywder a strwythurau llywodraethu’r trefniadau cyllid datganoledig. Mewn cyfarfod rhwng Gweinidogion Cyllid y DU ar 20 Gorffennaf, ceisiais ymrwymiad i ddod i gytundeb ar sut y bydd materion cyllidol yn cael eu trin drwy ymgysylltiad rhyngweinidogol cryfach fel rhan o’r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Yn ogystal, tynnais sylw Prif Ysgrifennydd y Trysorlys at oblygiadau sylweddol Adolygiad o Wariant y DU ar gyfer Cymru, a fydd o bosibl yn hwyr yn y cylch cyllidebol eleni, gan ddadlau dros gynnwys y llywodraethau datganoledig yn briodol er mwyn ein galluogi i gynllunio ein Cyllidebau ac er mwyn cefnogi’r adferiad.

Er bod dogfen Tryloywder Grant Bloc Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Mehefin 2021, yn cyflwyno’r holl newidiadau sy’n codi o setliadau’r adolygiad o wariant ar lefel adrannau’r DU, ni roddir unrhyw fanylion inni am newidiadau ar

lefel rhaglenni unigol y DU. Rhwng adolygiadau o wariant, nodir cyllid canlyniadol fformiwla Barnett yn sgil mesurau unigol Llywodraeth y DU, ond i ddechrau gall fod yn aneglur a fydd cyllid o'r fath yn cael ei ariannu drwy arian newydd neu arbedion neu ailflaenoriaethu gan adrannau'r DU. Mae'n bosibl na fydd y penderfyniad terfynol ynghylch cyllid yn cael ei wneud tan yn hwyr iawn yn y flwyddyn ariannol yn Amcangyfrifon Atodol y DU, er y gallai'r rhaglen newydd fod wedi bod ar waith yn Lloegr am lawer o'r flwyddyn.

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cynllunio'n effeithiol o ystyried y diffyg eglurder ynghylch graddfa'r amlen gyllid a fydd ar gael. Cafodd Gwarant Barnett, sy'n rhoi eglurder ar y swm ychwanegol isaf y gall y llywodraethau datganoledig ddisgwyl ei gael mewn blwyddyn, ei ddarparu yn 2020-21. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am drefniant tebyg yn 2021-22. Pe bai Llywodraeth y DU o leiaf yn darparu gwybodaeth cyn gynted â phosibl ynghylch newidiadau i gyllid, byddai hynny o gymorth i reoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn yn effeithlon ac effeithiol. Hefyd, dylai fod yn egwyddor sefydledig i unrhyw newidiadau hwyr i'n Cyllideb a nodir yn Amcangyfrifon Atodol y DU gael eu dwyn ymlaen y tu allan i derfynau arferol Cronfa Wrth Gefn Cymru.

Fel y nodir yn y ddogfen Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU (Mehefin 2021), mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai asiantaeth gyhoeddus a fyddai'n atebol i bob un o'r pedair gweinyddiaeth ar y cyd fod yn gyfrifol am weithredu'r trefniadau ar gyfer darparu adnoddau datganoledig, gan gynnwys pennu grym gwario a therfynau benthyg y gweinyddiaethau datganoledig. Byddai hyn yn sicrhau dilysrwydd y fframwaith cyllidol ledled y DU.

---

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dyraniadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ysgogi cyfalaf, sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanlyniadau'r dyraniadau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.**

**Ymateb: Derbyn**

Gan adeiladu ar y £320m o gyllid ailadeiladu a gyhoeddwyd yn 2020-21, yng Nghyllideb Derfynol 2021-22 dyrannwyd £224.5m ar gyfer pecyn ysgogi cyfalaf, gan roi cymorth pellach i flaenoriaethau ailadeiladu. Yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2021-22, a ailstrwythurwyd i adlewyrchu'r newidiadau i bortffolios y Gweinidogion, dyma'r elfennau o'r pecyn ysgogi:

- **£185m** yn y portffolio **Newid Hinsawdd**
  - £147m ar gyfer buddsoddiadau cysylltiedig â thai
  - £20m ar gyfer Teithio Llesol
  - £8m ar gyfer mesurau llifogydd awdurdodau lleol
  - £10m ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

- **£30m** yn y portffolio **Y Gymraeg ac Addysg** ar gyfer y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif

- **£5m** yn y portffolio **Yr Economi**
  - £3m o fuddsoddiad yn yr Ystad Ddiwylliannol
  - £2m o fuddsoddiad mewn chwaraeon

- **£4.5m** yn y portffolio **Cyfiawnder Cymdeithasol** ar gyfer cyfleusterau cymunedol.

Mae pob Gweinidog unigol yn y Cabinet yn gyfrifol am gyflawni'r blaenoriaethau yn eu portffolios a bydd pwyllgorau craffu perthnasol y Senedd yn craffu arnynt drwy gydol y flwyddyn. Fel yr arfer, byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor Cyllid ar ddiwedd y flwyddyn ynghylch y sefyllfa alldro ariannol ar gyfer 2021-22.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwerthusiad cychwynnol o'i chyllid grant ar gyfer mis Mai a mis Mehefin, gan gynnwys lefel y dyraniadau i fusnesau, lefel y cyllid heb ei wario, a'r rhesymau pam y bu tanwariant (yn enwedig lle mae hyn yn ymwneud â meini prawf cymhwysedd).**

**Ymateb: Derbyn**

Nodais fanylion y cymorth busnes a gynigir a'r rhesymau pam na chymeradwywyd ceisiadau yn fy llythyr i'r Pwyllgor Cyllid ar 19 Gorffennaf. Ers hynny, dyma'r cyllid grant a oedd ar gael ar gyfer cymorth busnes ym mis Mai a mis Mehefin:

- **Elfen a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer busnesau y mae eu trosiant dros £85,000**
  - 3,000 o grantiau wedi'u rhoi, gwerth £14m (mae nifer bach o gynigion yn yr arfaeth o hyd)
- **Elfen a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer busnesau y mae eu trosiant yn llai nag £85,000**
  - 3,116 o grantiau wedi'u rhoi, gwerth £8.2m.

Mae tanwariant o'r cyfnod hwn wedi'i ailddefnyddio i gefnogi pecynnau diweddaraf Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst, sy'n dal i fynd rhagddynt. Byddwn yn parhau i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn i reoli'r amrywiannau rhwng ymrwymiad a gwariant.

O ran pecyn Llywodraeth Cymru, rydym yn rhag-weld y bydd 1,200 o gynigion gwerth £6m (gydag 856 gwerth £4.3m wedi'u talu hyd yma), ac ym mhecyn yr awdurdodau lleol rhagwelir y bydd £1,500 o gynigion gwerth £4.5m.

Mae lefel y ceisiadau yn gyson â'r hyn a gynlluniwyd ac a ddisgwyliwyd gan fod busnesau bellach yn masnachu o dan amodau mwy arferol unwaith eto.

Cyfanswm yr alldro disgwyliedig yw **£32m - £37m (gan gynnwys £5m wrth gefn)** gyda'r gyllideb a'r ddarpariaeth ar waith o hyd. Arweinir y Cynllun gan y galw ac mae sefyllfa'r gyllideb yn cael ei rheoli yng nghyd-destun y ddarpariaeth yn y dyfodol fel y cynlluniwyd.

Rydym wedi sicrhau gwasanaeth Dirnad Economi Cymru i gynnal gwerthusiad ac asesiad effaith drwy ddull hydredol. Bydd y Gronfa Adfer Economaidd yn destun proses Fonitro ar ôl Cwblhau – mae tîm pwrpasol newydd wedi'i sefydlu ac mae'r gwaith wedi dechrau, gan ei alinio â'r cyfnod o 12 mis ers yr ymyrraeth gyntaf.

---

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am effaith ariannol ei phenderfyniad i ddileu rhan o'i benthyciad i Faes Awyr Caerdydd, o ystyried ei bod yn ofynnol iddo dalu 80 y cant o gyfanswm y cyllid cyfalaf trafodion ariannol a ddyrannwyd gan Drysorlys EM.**

**Ymateb: Derbyn**

Caiff buddsoddiadau unigol eu rheoli o fewn portffolio Trafodiadau Ariannol Llywodraeth Cymru ac amserlenni ad-dalu. Yn unol â pholisi Trafodiadau Ariannol Llywodraeth y DU, bydd ad-daliad o 80% o gyfanswm y cyllid yn ddyledus i Drysorlys EM yn unol â phroffil ad-dalu y cytunwyd arno.

Mewn unrhyw bortffolio buddsoddi, mae'n ddisgwyliedig y bydd mwy o risg ynghlwm wrth rai buddsoddiadau nag eraill. Caiff pob buddsoddiad ei fonitro i leihau risgiau a sicrhau y gellir eu rheoli ar draws y portffolio buddsoddi os bydd unrhyw risgiau'n codi. Wrth ystyried y penderfyniad i ddileu'r benthyciad, caiff yr holl opsiynau eu pwyso a'u mesur ynghyd â'r ymrwymiadau posibl i unrhyw sefydliad o ran rheoli eu hanhawster ariannol.

Yn achos y maes awyr, wrth bwyso a mesur yr achos Gwerth am Arian yn sgil dileu'r benthyciad, pe na bai unrhyw beth yn cael ei wneud nodwyd y byddai'r maes awyr yn stopio masnachu, y byddai swyddi'n cael eu colli ac y byddai effaith colli'r seilwaith hanfodol hwn yn cael ei theimlo am genedlaethau i ddod. Mae hyn yn cynnwys ystyried y 5,200 o swyddi anuniongyrchol a gefnogir gan y maes awyr a'r cwmnïau yn y gadwyn gyflenwi ehangach a'r achos ehangach i gefnogi'r sector

hedfan yn y cyfnod hwn. Cydnabyddir hefyd fod Cardiff International Airport Limited (CIAL) yn borth hollbwysig i Gymru ar gyfer busnesau, twristiaid a theithwyr cyffredinol gan ddarparu cysylltedd rhyngwladol cryf i Gymru ac o Gymru.

Mae’r penderfyniad hwn felly’n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn cael ei adennill ac mae’n cynnig yr opsiwn gorau o ran y gost oes gyfan isaf, gan ddarparu’r ffordd orau ymlaen ar gyfer Gweinidogion Cymru fel unig gyfranddalwyr y maes awyr o safbwynt masnachol. Yn unol â rheoli’r portffolio Trafodiadau Ariannol ehangach, gwnaed y penderfyniad hwn ar y sail na fydd hyn yn cael effaith niweidiol ar sefyllfa gyllidebol Llywodraeth Cymru gan y gall ad-daliad y benthyciad i Drysorlys EM gael ei reoli o fewn y proffil ad-dalu.

Felly, y penderfyniad hwn yw’r ffordd orau o ddiogelu gwerth y buddsoddiad cyhoeddus yn y maes awyr, gan leihau effeithiau economaidd niweidiol a sicrhau ei fod yn gynaliadwy at y dyfodol.

---

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwybodaeth am ail-flaenoriaethu cynlluniau ffyrdd yn cael ei chyflwyno'n glir ac yn dryloyw yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn ystyried beth yw’r ffordd orau o amlinellu cyllid yn glir ac yn dryloyw mewn perthynas ag ailflaenoriaethu cynlluniau ffyrdd fel rhan o’n Paratoadau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23, gan nodi mai’r Gweinidog Newid Hinsawdd, fel y Gweinidog sy’n gyfrifol am y maes cyllid hwn, fydd yn amlinellu manylion pellach fel rhan o’r broses graffu ehangach ar ein cynlluniau cyllidebol.

---

**Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro diben y dyraniad o £100 miliwn ar gyfer y GIG ac yn darparu gwybodaeth bellach, gan gynnwys**

**sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio, ei ganlyniadau arfaethedig a'r modd y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd ar yr effaith y mae'n ei chael yn y pen draw ar restrau aros y GIG.**

**Ymateb: Derbyn**

Yng nghyhoeddiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Mai, nodwyd sut y bydd y £100 miliwn yn cael ei ddefnyddio a beth yw'r canlyniadau arfaethedig. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd o'r cyllid drwy wybodaeth ariannol fisol ac ystadegau misol am restrau aros.

---

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar unrhyw ddyraniadau pellach i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pan fydd y wybodaeth honno ar gael, ynghyd â gwybodaeth am y canlyniadau arfaethedig.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd manylion dyraniadau pellach i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu darparu maes o law pan gytunir arnynt fel rhan o'n proses ddyrannu yn ystod y flwyddyn.

---

**Argymhelliad 9**

**Er ei fod yn cydnabod efallai na fyddant yn annibynnol ar ei gilydd, mae'r Pwyllgor yn argymell, at ddibenion tryloywder, bod Llywodraeth Cymru yn egluro diben unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cyrff y GIG, ac a yw' cael eu ddarparu i gefnogi adferiad neu drawsnewid/ailgynllunio gwasanaethau.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau diben unrhyw ddyraniad pellach o gyllid i'r GIG. Bydd penderfyniadau ar ddyrannu cyllid ar gyfer trawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy yn cael eu hystyried yn bennaf yn ystod proses gynllunio'r gyllideb.

Byddant yn cael eu cadarnhau yn y gyllideb ddrafft y bwriedir ei chyhoeddi ar 20 Rhagfyr.

---

**Argymhelliad 10**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar fonitro ac effeithiolrwydd y Gronfa Caledi Llywodraeth Leol, gan gynnwys y swm a ddyrennir i awdurdodau lleol a manylion pellach am y £26 miliwn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol wedi cefnogi costau ychwanegol awdurdodau lleol a'r incwm y maent wedi'i golli o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19. Mae nifer o gynlluniau cymorth penodol a weinyddir drwy awdurdodau lleol hefyd wedi'u cynnwys.

Mae awdurdodau'n hawlio ôl-daliadau ar gyfer costau bob mis ac ar gyfer incwm a gollwyd bob chwarter. Caiff hawliadau eu hasesu gan banel ar sail egwyddorion y cytunwyd arnynt. Mae'r panel yn cynnwys swyddogion cyllid llywodraeth leol, arweinwyr polisi penodol pan fo angen, aelod annibynnol mewnol ac aelodau annibynnol allanol sydd wedi bod mewn swyddi S151 (Prif Swyddog Cyllid) yn y gorffennol. Gofynnir am wybodaeth ychwanegol i gefnogi eitemau o fewn yr hawliadau pan fo angen.

Yn ogystal, caiff diweddariadau rheolaidd ar wariant yn erbyn y gyllideb eu rhannu â Phrif Swyddogion Cyllid y 22 o Awdurdodau Lleol. Mae'r cynllun hyd yma wedi bod yn effeithiol o ran cefnogi awdurdodau gyda chostau ychwanegol y pandemig a'r effaith ar wasanaethau craidd awdurdodau lleol a'r pwysau yn sgil colli incwm a cholli cyfleoedd i wneud arbedion a gynlluniwyd. Nid oes yr un awdurdod wedi adrodd anawsterau ariannol yn ystod cyfnod y pandemig, ac ni fu raid torri gwasanaethau er mwyn talu costau'r gofynion ychwanegol yn sgil y cyfyngiadau a oedd mewn grym yn ystod y pandemig.

Mae’r gronfa wedi helpu awdurdodau lleol i ymateb i rai o effeithiau’r pandemig ar grwpiau penodol. Mae’r gronfa, yn benodol, wedi helpu i ddarparu prydau ysgol am ddim pan oedd ysgolion ar gau ar gyfer gwersi wyneb yn wyneb ac yn ystod gwyliau ysgol. Yn 2020-2021, fel rhan o ymdrechion Cymru i leihau lledaeniad heintiau, rydym wedi ariannu dros 19,000 o daliadau hunanynysu i’r rhai a fyddai fel arall wedi wynebu caledi ariannol ac rydym wedi darparu ar gyfer tâl salwch ychwanegol i bobl gymwys. Mae’r gronfa hefyd wedi cefnogi cymorth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd.

Mae Tabl 1 isod yn nodi’r cymorth sydd wedi’i roi hyd yma yn 2020-21 (mae dal i fod £10m wedi’i gadw’n ôl tra gofynnir am wybodaeth ychwanegol).

*Tabl 1*

| **Maes gwasanaeth / cynllun** | **£** |
|---|---|
| Gwasanaethau cymdeithasol i oedolion | 144,080,154 |
| Gwasanaethau canolog | 23,322,838 |
| Gwasanaethau cymdeithasol i blant | 16,326,828 |
| Gwasanaethau tai a ariennir gan y cyngor | 31,265,618 |
| Gwasanaethau diwylliannol a chysylltiedig | 1,322,056 |
| Addysg | 40,674,620 |
| Amgylchedd a Rheoleiddio | 26,247,146 |
| Trafnidiaeth a Phriffyrdd | 2,526,273 |
| Cynllunio, datblygu a llysoedd | 606,545 |
| Prydau ysgol am ddim | 48,796,063 |
| Cynllun Hunanynysu LlC | 6,179,380 |
| Cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol LlC | 2,422,732 |
| Llifogydd | 2,595,668 |
| Profion mewn cartrefi gofal | 1,809,222 |
| Arbedion a oedd wedi’u cynllunio na chafodd eu cyflawni gan ALlau | 25,000,000 |
| Trawsnewid digidol | 25,000,000 |
| **Cyfanswm** | **398,175,143** |

| | |
|---|---|
| Colli incwm | 190,479,248 |
| **Cyfanswm grantiau** | **588,654,391** |

Mae Tabl 2 yn rhoi dadansoddiad o’r hawliadau a gafwyd hyd yma yn 2021-22:

*Tabl 2*

| **Cyfnod** | £ |
|---|---|
| Costau Ebrill | 14,748,371 |
| Costau Mai | 19,039,304 |
| Costau Mehefin | 20,981,516 |
| Colli incwm yn chwarter 1* | 24,674,194 |
| **Cyfanswm** | **79,443,385** |

*Yn aros o hyd am un ffurflen gan gyngor canolig

Mae’r Gweinidogion wedi cytuno ar £26m o gyllid ychwanegol i barhau â’r elfen gofal cymdeithasol i oedolion o’r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol hyd at ddiwedd y flwyddyn er mwyn cefnogi’r sector gofal cymdeithasol i oedolion yn ei ymateb hanfodol i bandemig y coronafeirws. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau’n ffurfiol yn y gyllideb atodol nesaf. Mae trafodaethau’n mynd rhagddynt â grwpiau rhanddeiliaid ynglŷn â thelerau’r cyllid hwn.

---

**Argymhelliad 11**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar drafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chyflog athrawon, a'r mater ehangach o sicrhau bod dyraniadau i fyd addysg yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol, yn hytrach na'r flwyddyn academaidd.**

**Ymateb: Derbyn**

Ymgynghorwyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ynghylch uwchraddio cyflog athrawon drwy ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol a gyhoeddwyd ar 11 Mehefin, er na chafwyd ymateb ffurfiol. Fodd bynnag, mae aelodau CLlLC wedi

mynegi eu pryderon yn uniongyrchol i’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg mewn cyfarfodydd. Hefyd, cyfeiriodd CLlLC at ei phryderon ynghylch fforddiadwyedd y cynnydd mewn llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol dyddiedig 28 Mehefin. Bydd manylion terfynol y dyfarniad cyflog yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â Gorchymyn Cyflog Athrawon 2021.

Cafodd y broses flynyddol ar gyfer penderfynu ar gyflog ac amodau athrawon ei sefydlu ym mis Chwefror 2019. Mae’n ddull gweithredu cyfunol sy’n dibynnu ar gyngor ac ymchwil a ddarperir gan Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau Athrawon (sy’n cynnwys undebau, cyflogwyr a swyddogion) ac arbenigedd annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

Caiff amseriad y broses flynyddol ei drafod yn y Fforwm Partneriaeth yn unol â’r dull partneriaeth gymdeithasol safonol. Mae CLlLC yn aelod gweithgar o’r Fforwm Partneriaeth a bydd yn rhan o drafodaethau o’r fath.

---